

Atodiad 1: Hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi

(Dylai darlledwyr teledu gyfeirio at Reol 9.35 yn [Adran Naw](#) y Cod Darlledu. (Dylai darlledwyr radio gyfeirio at Reol 10.13 yn [Adran Deg](#) y Cod Darlledu.

1. Mae'r atodiad hwn yn nodi'r darpariaethau perthnasol y cyfeirir atynt yn Rheolau 9.35 a 10.13 y Cod Darlledu, canllawiau Ofcom (pan fo'n berthnasol) ar sut y gellir cydymffurfio â'r darpariaethau hyn, a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i rwymedigaethau darlledwyr yng nghyswllt hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi.
2. Mae darlledwyr sy'n dymuno cyfathrebu hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi yn cael eu hannog yn gryf i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu, y darpariaethau hyn, a'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Efallai y bydd darlledwyr hefyd yn dymuno ystyried [canllawiau perimedr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol \("FCA"\)](#) ar hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi.
3. Os bydd unigolyn yn cael ei reoleiddio gan yr FCA oherwydd ei weithgarwch mewn hyrwyddiadau ariannol, yn cynhyrchu argymhellion buddsoddi neu ledaenu argymhellion buddsoddi a gynhyrchir gan drydydd parti, bydd yn ddarostyngedig yn lle hynny i reolau'r FCA.

Hyrwyddiadau Ariannol

Cyfyngiad ar Hyrwyddo Ariannol

Fframwaith Statudol

4. Mae'r canlynol yn agweddau allweddol ar y ddeddfwriaeth sy'n sail i rwymedigaethau darlledwr mewn perthynas â hyrwyddiadau ariannol. Fel y nodwyd ym mharagraff 2 uchod, mae darlledwyr yn cael eu hannog yn gryf i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu, y darpariaethau hyn, a'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Efallai y bydd darlledwyr hefyd yn dymuno ystyried canllawiau perimedr yr FCA ar hyrwyddiadau ariannol.
5. Mae adran 21 Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 ("FSMA 2000") yn darparu na chaiff person, wrth gynnal busnes, roi gwahoddiad neu anogaeth i gymryd rhan mewn gweithgarwch buddsoddi, neu gymryd rhan mewn gweithgaredd rheoli hawliadau. ("y cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol").
6. Mae erthygl 17 Gorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Hyrwyddo Ariannol) 2005 ("Gorchymyn 2005") yn darparu nad yw'r cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol yn gymwys i unrhyw gyfathrebiad nad yw'n:
 - nodi (yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol) pwy yw'r person sy'n darparu'r buddsoddiad rheoledig y mae'r cyfathrebiad yn ymwneud ag ef; ac
 - nodi (yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol) unrhyw berson fel person sy'n ymgymryd â gweithgaredd rheoledig mewn perthynas â'r buddsoddiad hwnnw; a
 - nodi (yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol) unrhyw berson fel person sy'n ymgymryd â gweithgaredd rheoli hawliadau rheoledig.
7. Mae erthygl 20 yn darparu eithriad pellach i'r cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol mewn perthynas â chyfathrebiadau gan newyddiadurwyr ("eithriad Erthygl 20").
8. Mae erthygl 20A Gorchymyn 2005 yn darparu eithriad pellach mewn perthynas â hyrwyddiadau a ddarlledir gan gyfarwyddwr cwmni neu gyflogai cwmni ("eithriad Erthygl 20A").

Eithriad mewn perthynas â chyfathrebiadau gan newyddiadurwyr (eithriad Erthygl 20)

Fframwaith Statudol

9. Mae erthygl 20 Gorchymyn 2005 yn darparu nad yw'r cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol yn gymwys i unrhyw gyfathrebiad nad yw'n amser real os:
- yw cynnwys y cyfathrebiad wedi cael ei lunio gan berson sy'n gweithredu fel newyddiadurwr;
 - mae'r cyfathrebiad wedi'i gynnwys mewn cyhoeddiad cymwys fel y'i diffinnir gan baragraffau 1 a 2 Erthygl 54 Gorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Gweithgareddau Rheoleiddiedig) 2001 ("Gorchymyn 2001"); ac
 - yn achos cyfathrebiad sy'n gofyn am ddatgeliad, bod un o'r amodau canlynol yn cael ei fodloni:
 - daw'r cyfathrebiad gydag esboniad o natur buddiant ariannol yr awdur neu fuddiant ariannol aelod o'i deulu; neu
 - mae'r awduron yn ddarostyngedig i systemau a gweithdrefnau priodol sy'n atal cyhoeddi cyfathrebiadau y mae angen eu datgelu ar eu cyfer heb yr esboniad y cyfeirir ato yn i. uchod; neu
 - mae'r cyhoeddiad cymwys y mae'r ohebiaeth yn ymddangos ynddo yn dod o fewn cylch gwaith y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Cwynion y Wasg, Cod Darlledu Ofcom, neu'r Canllawiau i Gynhyrchwyr a gyhoeddwyd gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.
10. Mae erthygl 54 Gorchymyn 2001 yn darparu mai cyhoeddiad cymwys yw:
- papur newydd, cyfnodolyn, cylchgrawn neu gyhoeddiad cyfnodol arall; neu
 - gwasanaeth newyddion neu wybodaeth sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd; neu
 - raglen neu ddarllediad teledu neu radio

Cyn belled nad prif bwrpas y cyhoeddiad yw cynghori person ar rinweddau, neu arwain neu alluogi person i brynu, gwerthu, tanysgrifio neu warantu buddsoddiad penodol sy'n fuddsoddiad a ddiogelir neu'n fuddsoddiad dan gontract.

Gofyniad Datgelu

11. Mae erthygl 20(3) Gorchymyn 2005 yn darparu bod gofyniad datgelu yn gymwys pan fo:
- awdur y cyfathrebiad neu aelod o'i deulu yn debygol o gael budd ariannol neu osgoi colled ariannol os bydd pobl yn gweithredu yn unol â'r gwahoddiad neu'r cymhelliant a gynhwysir yn y cyfathrebiad; a
 - mae'r cyfathrebiad yn ymwneud â buddsoddiad rheoledig h.y. chyfranddaliadau neu opsiynau, dyfodol, neu gontractau ar gyfer gwahaniaethau sy'n ymwneud â chyfranddaliadau, o fewn ystyr Erthygl 20(4) y Gorchymyn neu weithgaredd rheoli hawliadau rheoledig; a
 - mae'r cyfathrebiad yn nodi'n uniongyrchol berson sy'n dyroddi neu'n darparu'r buddsoddiad rheoledig neu sy'n ymgymryd neu'n ymgysylltu â'r gweithgaredd rheoli hawliadau rheoledig y mae'r cyfathrebiad yn ymwneud ag ef.
12. Mae erthygl 20 Gorchymyn 2005 yn darparu, pan fo gofyniad datgelu'n gymwys, bod rhaid i'r cyfathrebiad gynnwys esboniad o natur buddiant ariannol yr awdur neu fuddiant ariannol aelod o'i deulu.

13. Mae erthygl 20 hefyd yn darparu nad yw'r gofyniad datgelu o dan y ddeddfwriaeth yn berthnasol pan fo'r:
- awduron yn ddarostyngedig i systemau a gweithdrefnau priodol sy'n atal cyhoeddi cyfathrebiadau y mae angen eu datgelu ar eu cyfer heb yr esboniad y cyfeirir ato uchod; neu
 - mae'r cyhoeddiad cymwys y mae'r ohebiaeth yn ymddangos ynddo yn dod o fewn cylch gwaith y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Cwynion y Wasg, Cod Darlledu Ofcom, neu'r Canllawiau i Gynhyrchwyr a gyhoeddwyd gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.

Darpariaethau Perthnasol

14. Mae'r rhain yn ddarpariaethau perthnasol y cyfeirir atynt yn Rheolau 9.35 a 10.13 y Cod Darlledu.
15. Os yw darllediad yn dod o fewn cylch gwaith Cod Darlledu Ofcom fel y nodir uchod, rhaid i'r darlledwr naill ai:
- datgelu unrhyw fuddiant ariannol sydd gan y newyddiadurwr, ei briod/partner sifil, neu ei blentyn/plant dan 18 oed; neu
 - roi systemau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n atal darlledu hyrwyddiadau ariannol heb ddatgelu buddiannau ariannol.
16. Pan fydd cyfrannwyr achlysurol yn gysylltiedig, rhaid i ddarlledwyr sicrhau:
- bod yr angen am ddatgelu (neu osgoi buddiannau ariannol) yn cael ei ddwyn i sylw'r cyfrannwr cyn i'r cyfathrebiad gael ei wneud; a
 - bod y cyfrannwr yn cadarnhau ei fod yn deall ac yn derbyn y safbwynt ar ddatgelu ym mha ffordd bynnag sydd fwyaf priodol yn yr amgylchiadau.
17. Mae unrhyw hyrwyddiadau ariannol a gyfathrebir gan bersonau nad ydynt yn ddarostyngedig i systemau a gweithdrefnau priodol, am ba reswm bynnag, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol a byddai angen iddynt gael eu cymeradwyo gan berson awdurdodedig neu eu heithrio fel arall. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan ofynnir i bobl ddod i mewn ar y funud olaf ac nad yw'n ymarferol i'r darlledwr ddefnyddio systemau a gweithdrefnau priodol.

Canllawiau

18. Nid yw erthygl 20 Gorchymyn 2005 yn nodi'r ffordd y dylid datgelu buddiant ariannol. Fodd bynnag, mae Ofcom yn nodi bod yr FCA o'r farn y dylid datgelu buddiant ariannol mewn ffordd a fydd yn galluogi derbynwyr i ddeall ei natur yn rhwydd. Er enghraifft, "*mae gan yr awdur opsiynau masnachu sylweddol yn y cyfranddaliadau hyn*". Yn unol â hynny, mae Ofcom o'r farn y dylid datgelu buddiant ariannol mewn ffordd glir, dryloyw a hawdd ei deall.
19. Effaith eithriad Erthygl 20, a'r ddarpariaeth a nodir ym mharagraff 13 uchod, yw na fydd newyddiadurwr yn torri'r cyfyngiad ar hyrwyddo ariannol drwy beidio â datgelu buddiant ariannol, ar yr amod bod y cyhoeddiad, y gwasanaeth neu'r darllediad dan sylw yn gweithredu systemau a gweithdrefnau priodol. Bydd yr hyn sy'n gyfystyr â systemau a gweithdrefnau priodol yn dibynnu ar holl amgylchiadau achos penodol. Fodd bynnag, mae Ofcom yn nodi bod yr FCA yn nodi yn ei ganllawiau y gallai systemau a gweithdrefnau priodol gyflawni'r amcan o atal cyhoeddi cyfathrebiadau heb y datgeliad gofynnol mewn un o ddwy ffordd:
- Efallai y byddant yn mynnu y gellir gwneud datgeliad; neu

- Efallai y byddant yn ceisio atal darlledwyr rhag gweithredu mewn ffordd a fyddai'n eu galluogi i elwa pe bai pobl yn dilyn eu hargymhelliad cyhoeddus e.e. drwy eu gwahardd rhag delio yn y cyfranddaliadau neu fuddsoddiadau cysylltiedig am gyfnod rhesymol ar ôl yr hyrwyddo, gan sicrhau na fydd gan y newyddiadurwr fuddiant ariannol i'w ddatgelu.
20. Mae Ofcom yn mabwysiadu canllawiau'r FCA y gallai gwasanaeth neu ddarllediad fod yn debygol o fodloni'r gofyniad am systemau a gweithdrefnau priodol os yw wedi sefydlu gweithdrefnau:
- i bersonau sy'n gyfrifol am lunio cynnwys hyrwyddiadau ariannol, neu am benderfynu y dylid eu cynnwys yn y gwasanaeth neu'r darllediad, gofrestru eu buddiannau ariannol mewn log canolog sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i adolygu'n rheolaidd;
 - i bob hyrwyddiad ariannol gael ei adolygu cyn ei ddarlledu gan berson cymwys mewn swydd uwch; ac
 - i'r personau y cyfeirir atynt ym mhwynt 1 gael gwybod yn ysgrifenedig am y gweithdrefnau a'u rhwymedigaethau i ddatgelu eu buddiannau ariannol neu i ymatal rhag cymryd unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn debygol o roi budd ariannol iddynt sydd angen ei ddatgelu ac, yn ddelfrydol, fod wedi cadarnhau eu bod yn derbyn y gweithdrefnau a'r rhwymedigaethau hyn yn ysgrifenedig.

Darllediad hyrwyddo gan gyfarwyddwr cwmni ac ati (eithriad Erthygl 20A) Fframwaith Statudol

21. Mae erthygl 20A Gorchymyn 2005 yn darparu nad yw'r cyfyngiad ar hybu ariannol yn gymwys i gyfathrebiad a gyfathrebiad fel rhan o wasanaeth cymwys, gan berson sy'n gyfarwyddwr neu'n gyflogai i ymgymeriad, pan fo'r cyfathrebiad:
- yn gwahodd neu'n cymhell y derbynnydd i gaffael buddsoddiad rheoledig o'r math a gwmpesir gan erthygl 20(4) Gorchymyn 2005 a ddyroddir gan yr ymgymeriad neu ymgymeriad arall yn yr un grŵp neu berson awdurdodedig yn yr un grŵp; a
 - yn cynnwys geiriau sy'n cael eu siarad gan y cyfarwyddwr neu'r cyflogai ac nad ydynt yn cael eu darlledu, eu trosglwyddo na'u harddangos yn ysgrifenedig yn unig, oherwydd eu bod yn rhan o ddeialog ryngweithiol y mae'r cyfarwyddwr neu'r cyflogai'n barti iddi ac y disgwylir yn ystod hynny i'r cyfarwyddwr neu'r cyflogai ymateb ar unwaith i gwestiynau a ofynnir gan dderbynnydd y cyfathrebiad; a
 - ddim yn rhan o ymgyrch farchnata wedi'i threfnu; a
 - daw gydag esboniad bod y cyfarwyddwr neu'r gweithiwr yn gyfarwyddwr neu'n gyflogai i'r ymgymeriad.
22. Mae erthygl 20A(2) yn darparu bod gwasanaeth cymwys yn wasanaeth sydd yn:
- cael ei ddarlledu neu ei drosglwyddo ar ffurf rhaglenni teledu neu radio; neu
 - yn ymddangos ar wefan (neu system debyg ar gyfer arddangos gwybodaeth yn electronig) sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd

Cyn belled nad prif bwrpas y gwasanaeth yn ei gyfarwydd (yn cynnwys unrhyw hysbysiadau ac unrhyw hyrwyddiadau eraill ynddo) yw cynghori person ar rinweddau, neu arwain neu alluogi person i brynu, gwerthu, tanysgrifio neu warantu buddsoddiad penodol sy'n fuddsoddiad a ddiogelir neu'n fuddsoddiad dan gontract.

Canllawiau

23. Yn unol â chanllawiau perimedr yr FCA, mae'n ymddangos mai prif ddiben yr eithriad ar gyfer darlledu hyrwyddiadau gan gyfarwyddwyr cwmni yw gwarchod rhag y posibilrwydd, yn ystod cyfweiliad a ddarllidir neu gyflwyniad gwefan byw, y caiff hyrwyddiad ariannol ei wneud yn anfwriadol gan gyfarwyddwr neu gyflogai cwmni neu fenter busnes arall pan nad yw'r person hwnnw'n gweithredu fel newyddiadurwr.
24. Mae eithriad Erthygl 20A yn gwahardd yn benodol unrhyw fath o gyfathrebu ysgrifenedig. Fodd bynnag, dywed yr FCA yn ei ganllawiau perimedr ei fod yn deall nad oedd y Trysorlys yn bwriadu gwahardd defnyddio geiriau ysgrifenedig ar ffurf is-deitlo, a allai fod yn gymorth i'r rheini sydd ag anawsterau clywed neu i ddehongli iaith dramor, neu ddefnyddio capsionau sy'n ategu cyfathrebiad llafar drwy dynnu sylw at agweddau ohoni heb gyflwyno unrhyw beth newydd.
25. Mae'r FCA hefyd yn nodi yn ei ganllawiau, er nad yw'n gallu ffrwyno ei ddisgresiwn a rhaid iddo ystyried pob achos posibl o dorri'r Cod ar ei deilyngdod ei hun, pan fo'r unig achos posibl o dorri'r Cod yn ymwneud â defnyddio isdeitlau neu gapsionau yn y ffordd uchod, ni fyddai'r FCA yn disgwyl cymryd camau pellach.

Argymhellion buddsoddi Fframwaith Statudol

26. Mae'r canlynol yn agweddau allweddol ar y ddeddfwriaeth sy'n sail i rwymedigaethau darlledwyr mewn perthynas ag argymhellion buddsoddi. Fel y nodwyd ym mharagraff 2 uchod, mae darlledwyr yn cael eu hannog yn gryf i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu, y darpariaethau hyn, a'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Efallai y bydd darlledwyr hefyd yn dymuno ystyried canllawiau perimedr yr FCA ar argymhellion buddsoddi.
27. Daeth Rheoliadau Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Camddefnyddio'r Farchnad) 2016/680 ("Rheoliadau 2016/680") i rym ar 3 Gorffennaf 2016. Rhoddasant effaith i Reoliad 596/2014 yr UE ar gamddefnyddio'r farchnad ("Rheoliad 596/2014"), a ategir gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2016/958 ("Rheoliad 2016/958"). Mae Rheoliadau 596/2014 a 2016/598 yn ddeddfwriaeth a ddargedwir sy'n parhau i fod yn berthnasol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, ac sy'n gosod gofynion a safonau ar y rheini sy'n llunio argymhellion buddsoddi, neu'n lledaenu argymhellion buddsoddi a gynhyrchir gan drydydd parti, drwy'r cyfryngau.
28. Mae erthygl 20(1) Rheoliad 596/2014 yn darparu y bydd personau sy'n cynhyrchu neu'n dosbarthu argymhellion buddsoddi neu wybodaeth arall sy'n argymhell neu'n awgrymu strategaeth fuddsoddi yn cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei chyflwyno'n wrthrychol, ac i ddatgelu eu buddiannau neu i ddangos gwrthdaro rhwng buddiannau mewn perthynas â'r offerynnau ariannol y mae'r wybodaeth honno'n ymwneud â hwy.
29. Mae Rheoliad 2016/958 yn gosod safonau technegol rheoleiddiol ar gyfer y trefniadau technegol ar gyfer cyflwyno argymhellion buddsoddi'n wrthrychol neu wybodaeth arall sy'n argymhell neu'n awgrymu strategaeth fuddsoddi ac ar gyfer datgelu buddiannau neu arwyddion penodol o wrthdaro rhwng buddiannau. Fodd bynnag, mae erthyglau 20 a 21 Rheoliad 596/2014 yn darparu bod newyddiadurwyr sy'n destun rheoleiddio cyfatebol yn y DU neu hunanreoleiddio priodol, gan gynnwys lle mae Cod Darlledu Ofcom yn berthnasol, wedi'u heithrio o'r safonau hyn ar yr amod bod:
 - rheoliad o'r fath yn cael effeithiau tebyg i'r rhai a gyflawnir gan y safonau;

- nid oes unrhyw fantais neu elw o ddatgelu neu ledaenu'r wybodaeth o dan sylw yn cael ei greu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i'r personau dan sylw neu'r personau sy'n gysylltiedig yn agos â hwy; a
- nid yw'r datgeliad neu'r lledaenu yn cael ei wneud gyda'r bwriad o gamarwain y farchnad o ran cyflenwi, y galw am, neu bris offerynnau ariannol.

30. Bwriedir i'r darpariaethau canlynol gael effeithiau tebyg i'r safonau a nodir yn Rheoliad 2016/958.

Darpariaethau Perthnasol

31. Mae'r rhain yn ddarpariaethau perthnasol y cyfeirir atynt yn Rheolau 9.35 a 10.13 y Cod Darlledu.

Cynhyrchu Argymhellion

Pwy yw cynhyrchwyr argymhellion

32. Pan fydd pobl sy'n gweithio ar raglenni, h.y. pobl sy'n cael eu cyflogi gan y darlledwr neu sy'n gweithio i, neu fel cynhyrchydd annibynnol sy'n gwneud rhaglen i'r darlledwr, yn llunio argymhellion buddsoddi neu wybodaeth arall sy'n argymhell neu'n awgrymu strategaeth fuddsoddi, rhaid iddynt wneud y canlynol:

- datgelu pwy ydynt, ac enw a theitl swydd unrhyw berson(au) eraill sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r argymhelliad, yn glir ac yn amlwg yn yr holl argymhellion y maent yn eu llunio. Pan fo person naturiol neu gyfreithiol sy'n ymwneud â chyflwyno'r argymhelliad yn gweithredu o dan gontract neu fel arall ar ran person cyfreithiol, rhaid datgelu enw'r person cyfreithiol hwnnw hefyd; a
- datgan cyfeiriad clir yn ystod y rhaglen at y ffaith ei fod yn cael ei reoleiddio gan God Darlledu Ofcom.

33. Lle mae rhaglen deledu neu radio'n dangos rhywun sy'n cael ei reoleiddio gan yr FCA sy'n gwneud argymhelliad ar fuddsoddi, y person hwnnw ac nid y darlledwr sy'n gyfrifol am ufuddod y person hwnnw i reolau'r FCA. Os bydd rhywun sy'n gweithio ar raglen yn cyfweld rhywun nad yw'n cael ei reoleiddio gan yr FCA sy'n gwneud argymhelliad buddsoddi, cyfrifoldeb y sawl sy'n cael ei gyfweld yw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Rhwymedigaethau cyffredinol mewn perthynas â chyflwyno argymhellion yn wrthrychol

34. Rhaid i bobl sy'n gweithio ar raglenni sy'n cynhyrchu argymhellion sicrhau:

- bod ffeithiau'n cael eu gwahaniaethu'n glir oddi wrth ddehongliadau, amcangyfrifon, barnau a mathau eraill o wybodaeth anffeithiol;
- bod yr holl ffynonellau gwybodaeth sylweddol berthnasol wedi'u nodi'n glir ac yn amlwg;
- bod yr holl ffynonellau gwybodaeth yn ddibynadwy, neu os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw ffynhonnell yn ddibynadwy, y nodir hyn yn glir;
- bod yr holl ragamcaniadau, rhagolygon a thargedau prisiau wedi'u labelu'n glir ac yn amlwg fel y cyfryw, a bod y rhagdybiaethau perthnasol a wnaed wrth eu cynhyrchu neu eu defnyddio wedi'u nodi; a
- bod yr amser a'r dyddiad y cwblhawyd y gwaith o gynhyrchu'r argymhelliad wedi'u nodi'n glir ac yn amlwg.

35. Pan fo datgelu'r wybodaeth ym mhwyntiau dau i bump uchod yn anghymesur mewn perthynas â hyd neu ffurf yr argymhelliad, gan gynnwys yn achos argymhelliad anysgrifenedig a wneir gan ddefnyddio cyfweiliadau radio, teledu neu wefan, rhaid i'r person sy'n llunio'r argymhellion ddatgan yn yr argymhelliad y gellir cael gafael ar yr wybodaeth ofynnol yn uniongyrchol, yn rhwydd, ac yn rhad ac am ddim gan y personau sy'n derbyn yr argymhelliad.
36. Rhaid i bobl sy'n gweithio ar raglenni sy'n llunio argymhellion gadarnhau unrhyw argymhelliad y maent wedi'i lunio i'r FCA ar ei gais.

Dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â datgelu buddiannau neu wrthdaro rhwng buddiannau

37. Bydd pobl sy'n gweithio ar raglenni sy'n llunio argymhellion yn datgelu yn eu hargymhellion yr holl berthnasod ac amgylchiadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt amharu ar wrthrychedd yr argymhelliad, gan gynnwys buddiannau neu wrthdaro rhwng buddiannau:
- ar eu rhan hwy neu ar ran unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol sy'n gweithio iddynt o dan gontract;
 - ar ran unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol sy'n ymwneud â llunio'r argymhelliad; a/neu
 - ynghylch unrhyw offeryn ariannol neu'r darparwr y mae'r argymhelliad yn ymwneud ag ef yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
38. Lle bo'r person sy'n llunio argymhellion yn berson cyfreithiol, rhaid i'r wybodaeth sydd i'w datgelu hefyd gynnwys unrhyw fuddiant neu wrthdaro rhwng buddiannau unrhyw berson sy'n perthyn i'r un grŵp sydd:
- yn hysbys, neu y disgwylir yn rhesymol iddynt fod yn hysbys, i'r personau sy'n ymwneud â llunio'r argymhelliad; neu
 - yn hysbys i bersonau sydd, er nad ydynt yn ymwneud â llunio'r argymhelliad, â mynediad i'r argymhelliad, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael mynediad ato, cyn ei gwblhau.
39. Pan fo person sy'n llunio argymhellion yn berson naturiol, mae'r wybodaeth sydd i'w datgelu hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau neu wrthdaro rhwng buddiannau unrhyw berson sy'n gysylltiedig yn agos â hwy.

Rhannu argymhellion a wnaed gan drydydd parti Trefniadau ar gyfer rhannu argymhellion

40. Pan fydd pobl sy'n gweithio ar raglenni yn rhannu argymhelliad buddsoddi a wnaed gan drydydd parti, rhaid i'r darlledwr sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chyfleu mewn ffordd glir i'r bobl sy'n cael yr argymhellion:
- pwy yw'r person sy'n rhannu'r argymhelliad;
 - yr holl berthnasod ac amgylchiadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt amharu ar gyflwyniad gwrthrychol yr argymhelliad gan gynnwys buddiannau neu wrthdaro rhwng buddiannau sy'n ymwneud ag unrhyw offeryn ariannol neu'r darparwr y mae'r argymhelliad yn ymwneud ag ef yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; a
 - dyddiad a'r amser pan gaiff yr argymhelliad ei rannu gyntaf.
41. Lle mae pobl sy'n gweithio ar raglenni'n rhannu crynodeb neu ddyfyniad o argymhelliad ar fuddsoddi a wnaed gan drydydd parti, rhaid i'r darlledwr sicrhau bod y crynodeb neu'r dyfyniad:
- yn glir ac nid yw'n gamarweiniol;

- yn cael ei nodi fel crynodeb neu ddyfyniad; ac
- yn nodi'r argymhelliad gwreiddiol yn glir.

42. Rhaid i'r darlledwr hefyd sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol ynghylch lluniwr yr argymhelliad ar gael naill ai'n uniongyrchol, yn y crynodeb neu yn y dyfyniad ei hun, neu drwy gyfeirio at y man lle gellir cael gafael ar y wybodaeth honno, yn rhad ac am ddim, gan y bobl sy'n derbyn y crynodeb neu'r dyfyniad o'r argymhelliad:

- enw a theitl swydd yr holl bersonau naturiol sy'n ymwneud â llunio'r argymhelliad; a
- phan fo person naturiol neu berson cyfreithiol sy'n ymwneud â llunio'r argymhelliad yn gweithredu o dan gontract, gan gynnwys contract cyflogaeth, neu fel arall ar gyfer person cyfreithiol, enw'r cyfryw berson cyfreithiol.

43. Os yw'r cynhyrchydd yn gwmni buddsoddi, yn sefydliad credyd, neu'n berson naturiol sy'n gweithio i gwmni buddsoddi neu sefydliad credyd o dan gontract cyflogaeth neu fel arall, rhaid nodi pwy yw'r rheoleiddiwr perthnasol yn yr argymhelliad.

44. Os nad yw'r cynhyrchydd yn gwmni buddsoddi, yn sefydliad credyd, neu'n berson naturiol sy'n gweithio i gwmni buddsoddi neu sefydliad credyd o dan gontract cyflogaeth neu fel arall, ond sy'n ddarostyngedig i safonau hunan-reoleiddio neu godau ymddygiad ar gyfer llunio argymhellion, rhaid gwneud cyfeiriad at y safonau neu'r codau hynny yn yr argymhelliad.

45. Rhaid i bobl sy'n gweithio ar raglenni sy'n rhannu argymhelliad a gynhyrchir gan drydydd parti, sy'n cael ei newid yn sylweddol, sicrhau bod yr argymhelliad yn nodi'n glir y newid sylweddol yn fanwl, a chynnwys yn yr argymhelliad sydd wedi'i ddiwygio'n sylweddol gyfeiriad at y man lle y gellir cael gafael ar yr wybodaeth ynghylch cynhyrchydd yr argymhelliad gwreiddiol a nodir ym mharagraffau 37 i 39 uchod, yn rhad ac am ddim, gan y personau sy'n derbyn yr argymhelliad sydd wedi'i newid yn sylweddol.

46. Hefyd, lle mae pobl sy'n gweithio ar raglenni un ai'n gwneud argymhelliad ar fuddsoddi neu'n lledaenu argymhelliad a wnaed gan drydydd parti, rhaid i'r darlledwr sicrhau bod cyfeiriad clir yn ystod y rhaglen at y ffaith ei fod yn cael ei reoleiddio gan God Darlledu Ofcom.